# Gwasanaeth Pontio Tŷ'r Bont

Mae Gwasanaeth Pontio Tŷ'r Bont yn bartneriaeth unigryw rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac Addysg sydd wedi'i leoli yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn. Fe'i datblygwyd mewn ymateb i'r hyn a ddywedodd pobl leol sy'n bwysig iddynt ac fe'i hariennir gan Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Cyngor Caerdydd, gyda chymorth ariannol gan Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) Llywodraeth Cymru.

Yn ddiweddar enillodd y Gwasanaeth wobr Deall Anabledd, gan y Ffederasiwn Rhieni yng Nghaerdydd. Enillwyd y wobr i gydnabod effaith gwella'r cynnig lleol ôl-bontio drwy ddatblygu gwasanaeth pontio pwrpasol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymorth cymhleth. Mae'r gwasanaeth yn galluogi pobl ifanc i gael cymorth gan staff medrus iawn, cymryd rhan mewn cyfleoedd ystyrlon, pwrpasol sy'n bwysig iddynt a datblygu sgiliau a phrofiadau newydd ar gyfer bywyd fel oedolion. Ond yn bwysicaf oll mae'n caniatáu i'r bobl ifanc aros yn lleol a ffynnu. Mae effaith y cymorth medrus yn dangos gostyngiad amlwg mewn ymddygiadau sy'n peri pryder ac mae hyn yn ei dro yn arwain at lawer o enillion ansawdd bywyd.

Mae'r prosiect wedi'i anelu at bobl ifanc ag anabledd dysgu ac anghenion cymhleth. Gall hyn gynnwys pobl sydd â Chyflwr Sbectrwm Awtistig (ASC), Anabledd Dysgu Dwys a Lluosog (PMLD), yn ogystal â phobl ag anghenion iechyd uchel ac ymddygiadau sy'n peri pryder sylweddol.






**"Credwn fod cyfnod pontio wedi'i gynllunio'n dda sy'n cael ei gydgynhyrchu â'r person ifanc a'i rwydweithiau yn bwysig i unrhyw berson ifanc, ond credwn fod hyn yn hanfodol i berson ifanc ag anghenion cymhleth ac y gall fod ag enillion a buddion hirdymor iddyn nhw."**

**Julie Reed**
**Rheolwr Gwasanaeth Dydd Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion**

Mae'r prosiect arloesol yn defnyddio dull cynllunio wedi'i gydgynhyrchu, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan nodi beth sydd angen ei wneud i gefnogi pontio llyfn trwy weithio ochr yn ochr â disgyblion yn yr ystafell ddosbarth ym mlynyddoedd olaf eu hysgol i'w paratoi ar gyfer bywyd oedolyn. Mae tîm Tŷ'r Bont hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r ysgol, teulu'r disgyblion a rhwydweithiau, gan grisialu sut beth yw bywyd oedolyn da o safbwynt yr unigolyn. Mae'r cynllun yn unigryw, yn drosglwyddadwy ac yn aros gyda'r person ifanc ym mha bynnag gyfleoedd y bydd yn manteisio arnynt nesaf.

Unwaith y bydd y person wedi gadael yr ysgol, mae rhai yn dewis defnyddio gwasanaeth dydd arbenigol. Mae'r cyngor wedi gwella a datblygu'r cynnig i'r rhai sy'n gadael yr ysgol mewn ymateb i'r hyn y mae pobl leol yn ei ddweud sy'n bwysig iddynt. Mae'r Gwasanaeth yn cynnig cymorth o ansawdd, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i arwain gan ganlyniadau. Mae hyn nid yn unig yn ceisio cefnogi'r person ifanc i aros yn lleol ac yn agos at leoedd a phobl sy'n bwysig iddynt, ond mae hefyd yn rhoi'r cymorth sydd ei angen ar y teulu neu'r gofalwr i barhau yn eu rôl ofalu.

## L's Story

Gadawodd L yr ysgol ym mis Gorffennaf 2023. Yn y flwyddyn cyn iddi adael, bu tîm Tŷ'r Bont yn gweithio ochr yn ochr â hi yn yr ystafell ddosbarth i gasglu gwybodaeth a chydgynhyrchu cynllun ar gyfer ei chyfnod pontio. Mae gan L ddiagnosis o anabledd dysgu a gall arddangos cyfnodau o ymddygiad dwys a heriol yn aml. Wrth adael yr ysgol,



dewisodd L barhau i gael cymorth gan dîm Tŷ'r Bont ac mae L yn ymateb yn gadarnhaol i gefnogaeth fedrus ac ystyriol y tîm. Roedd cynllun L, a luniwyd ar y cyd â hi yn ei blwyddyn olaf yn yr ysgol, yn cynnwys yr angen am arferion/gweithgareddau cyson, rhagweladwy a phersonol, gan sicrhau bod digon o gyfleoedd i L arfer dewis a rheolaeth. Mae achosion o ymddygiadau y gellir eu hystyried yn heriol eisoes wedi lleihau'n sylweddol o ran amlder, hyd a dwyster, ac mae L hefyd yn amlwg yn mwynhau'r amser y mae'n ei dreulio yn y gwasanaeth.

Nododd mam L, 'pa mor falch' ydyw' â phontio L a'r ffordd y mae wedi'i gynllunio'. Mae hi 'mor galonogol i ni fel rhieni' ychwanegodd ac mai cael mynediad i'r gwasanaeth oedd y 'penderfyniad gorau' i L. Roedd ein 'dull hyderus, cadarnhaol a thawel' wedi 'lliniaru unrhyw bryderon oedd ganddynt am newid mor fawr'.